



Disclosure & Barring Service

Cynlluniau rhedeg cyhoeddus a rolau cysylltiedig

Awdurdodaeth: Cymru a Lloegr

Cefndir

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o grwpiau rhedeg cyhoeddus ar draws Cymru a Lloegr. Mae gan rolau sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hyn deitlau fel Arweinydd Rhedeg neu Gyfarwyddwr Rhedeg.

Mae eu rolau'n cynnwys dewis llwybr y rhedfeydd, gwirio rhag peryglon, trefnu'r goruchwylwyr, amseru a chofnodi manylion y digwyddiadau.

Mae nifer o ymholiadau wedi bod ynglŷn â swyddi sy'n gysylltiedig â grwpiau rhedeg cyhoeddus mewn perthynas â chymwysedd am wiriadau'r DBS a gwiriadau'r rhestrau gwahardd.

Y peth cyntaf i'w wneud yw edrych ar bwy sy'n asesu addasrwydd yr unigolyn ar gyfer y rôl:

- A ydynt yn cael eu cymeradwyo gan sefydliad i ymgymryd â'r rôl hon, neu a ydynt yn ymgymryd â'r rôl hon eu hunain, heb gymeradwyaeth allanol?

Ni all person sy'n ymgymryd â'r rôl o Arweinydd Rhedeg heb sefydliad neu gyflogwr cymeradwyo geisio am wiriad safonol neu fanwl oherwydd nid yw neb yn penderfynu ar eu haddasrwydd. Fodd bynnag, gall yr unigolyn ofyn am wiriad sylfaenol eu hunain.

Lefel y gwiriad

Os oes sefydliad neu gyflogwr yn gwneud penderfyniad addasrwydd, yna mae angen arnoch edrych ar ba weithgaredd fyddai'r arweinydd rhedeg yn ei wneud, ar gyfer pwy fyddai'r gweithgaredd, a pha mor aml y byddai'n cael ei wneud i weld os yw unrhyw gymhwysedd yn bodoli.

Ni restrir rôl Arweinydd Rhedeg yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 Gorchymyn Eithriadau 1975. Oherwydd hyn, mae angen i chi edrych ar weithgareddau a ymgwymerir gan yr unigolyn a'r amllder y'u hymgymerir i weld a ydynt yn gymwys am unrhyw lefel o wiriad.

Er enghraifft: Mae UK Athletics (UKA) yn cyflwyno gwiriadau'r DBS ar gyfer dau gynllun rhedeg – 'Rhedwn Gyda'n Gilydd' a 'Rhedeg yn y Parc'. Mae UK Athletics yn gwneud penderfyniad addasrwydd ar y cyfarwyddwyr rhedeg hyn. Mae'r cyfarwyddwyr hyn yn gyfrifol am redfeydd y plant ac weithiau rhedfeydd agored lle gall plant fod yn bresennol.

Os yw'r arweinydd rhedeg yn gyfrifol am grŵp rhedeg ar gyfer rhai o dan 18 ac yn gyfrifol am addysgu, hyfforddi neu gyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant yn ystod rhediad ac maent yn gwneud hyn ar fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod, yna byddent mewn gweithgaredd a reoleiddir â phlant ac o'r herwydd yn gymwys am DBS Manwl gyda gwiriad rhestr wahardd plant. Os ydynt yn gwneud hyn yn llai aml, gallent fod mewn 'gwaith gyda phlant' a fyddai'n eu gwneud yn gymwys am wiriad Manwl y DBS heb wiriad o'r rhestr wahardd plant.

Ein dealltwriaeth bresennol yw nad yw'r rôl o arweinydd rhedeg yn cwrdd â chymhwysedd yn y gweithlu oedolion gan na fyddai unrhyw un o'u gweithgareddau'n cyfatebi 'waith gydag oedolion' neu weithgaredd a reoleiddir ag oedolion.

Os nad yw'r arweinydd rhedeg yn rheoli'r grŵp yn benodol ar gyfer plant fel y nodir uchod, byddent ond yn gallu caffael gwiriad lefel sylfaenol.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gywir adeg argraffu. Os ydych angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid y DBS neu ceisiwch gyngor cyfreithiol.